Yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd
Cadeirydd
Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

19 Gorffennaf 2018

Annwyl yr Arglwydd Thomas

**Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru**

Yn dilyn fy llythyr ar 25 Mai 2018, lle tynnais eich sylw at adroddiad ein pwyllgor rhagflaenol yn 2012 ar *Awdurdodaeth ar Wahân i Gymru*, trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ymhellach waith y Comisiwn yn ei gyfarfod ar 25 Mehefin a chytuno y dylwn ysgrifennu atoch i gynnig rhagor o sylwadau, er na chytunodd David Melding AC ar y llythyr hwn.

**Cyfiawnder**

Ar hyn o bryd, dim ond am ran fach, ond gynyddol, o'r system gyfiawnder mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gyfrifol amdani, yn bennaf nifer o dribiwnlysoedd a phenodi aelodau'r cyrff hynny. Er hynny, maent yn bwysig ac mae'n hanfodol eu bod yn gweithredu i'r safonau barnwrol uchaf posibl. Mae hyn yn golygu hyfforddiant, llywodraethiant annibynol, effeithlonrwydd a chydymffurfiaeth â rheolaeth y gyfraith. Mae penodi Syr Wyn Williams QC yn gam pwysig ymlaen wrth ddatblygu'r rhan hon o'r system gyfiawnder.

Fodd bynnag, mae angen trafod rhagor o ddiwygiadau. Mae'n bosibl y bydd lle i un corff Tribiwnlys ag aelodau tribiwnlys neu Gadeiryddion â sgiliau mewn sawl maes. Yn y bôn, mae angen symleiddio'r system. At hynny, dylai'r system benodi fod yn gwbl ar wahân i'r Llywodraeth. Yn ein barn ni, dylai fod yn gyfrifoldeb y Cwnsler Cyffredinol fel Uwch-swyddog y Gyfraith.

**Mynediad at gyfiawnder**

Mae toriadau i Gymorth Cyfreithiol wedi cael effaith sylweddol. Maent wedi dadrymuso rhannau o gymdeithas sydd bellach yn cael braidd dim mynediad at y system gyfiawnder. Ym meysydd tai, budd-daliadau a llawer o feysydd lles, nid oes hawl o gwbl heblaw am yr hyn a roddir drwy asiantaethau cyngor.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

Ni chaiff ansawdd na maint y cyngor nac, mewn rhai achosion, y gynrychiolaeth a roddir, eu gwerthuso'n fanwl. Rydym yn amau bod amrywiad sylweddol ledled y wlad.

Gall fod angen i ni ailsefydlu cynllun Cyngor a Chymorth Cyfreithiol Cymru, a allai ddechrau drwy gydgysylltu'r ffynonellau cyngor gyda'r nod, yn y tymor hwy, o'u hatgyfnerthu.

Os caiff rhannau o'r system gyfiawnder eu datganoli ymhellach, dylid datganoli'r rhannau perthnasol cymesur o'r cynllun cymorth cyfreithiol gweddilliol a'i gyllid i Gymru.

**Mynediad at Gyfraith Cymru**

Mae codeiddio'n gam pwysig ymlaen. Mae hyrwyddo a hygyrchedd Cyfraith Cymru yn annigonol a dylai gael adnoddau priodol.

Dylai rôl Ysgolion y Gyfraith yng Nghymru ddod yn rhan annatod o ddatblygiad Cyfraith Cymru a'r system gyfreithiol Gymreig sy'n datblygu. Mae sefydlu Sefydliad Cyfraith Cymru yn fenter bwysig.

**Awdurdodaeth**

Mae awdurdodaeth benodol yn gynnig trosiannol ymarferol a all arwain at awdurdodaeth fwy ffurfiol yng Nghymru yn y pen draw.

Daw'r gwrthwynebiad i hyn yn bennaf o gamddealltwriaeth o beth yw awdurdodaeth. Wrth dderbyn Bil Cymru (Deddf Cymru 2017) diweddar, adleisiodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru hyn drwy sôn am sut y mae awdurdodaeth Cymru a Lloegr wedi ein gwasanaethu'n dda ers canrifoedd ac nid oes rheswm i'w newid. Mae'r sylwadau hyn yn cadarnhau'r diffyg dealltwriaeth o ran beth yw awdurdodaeth, sef gweinyddu cyfiawnder yn effeithlon. Mae angen ei ddatgyfrinio er mwyn cael cynnydd yn y maes hwn.

**Plismona, Cyfiawnder Ieuenctid a Phrawf**

Nid yw dadleuon dros ddatganoli plismona, cyfiawnder ieuenctid a'r system brawf wedi'u gwneud yn dda, ac maent wedi tueddu i gael eu gwneud ar sail pwnc yn hytrach na rhesymeg. At hynny, mae cyfathrebu ar y materion hyn â San Steffan wedi bod yn wael.

Dylai'r man cychwyn fod ein cyfrifoldebau polisi cymdeithasol datganoledig. Mae gennym gyfrifoldeb dros bolisi plant a phobl ifanc ac addysg, tai a digartrefedd, materion teulu, lles a gofal cymdeithasol, materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb a thlodi. Er mwyn rheoli'r rhain yn llawn, mae angen hefyd ymwneud â materion yr heddlu a diogelwch cymunedol, rheoli problemau

ieuenctid, a'r ffordd y mae'r system gyfiawnder yn rhan o hyn yn dilyn hynny. Mae'n rhesymegol cysylltu'r rhain ac ystyried eu bod yn rhyng-gysylltiedig.

**Gweinyddiaeth Gyfiawnder Llywodraeth Cymru**

Nid yw cyfiawnder, fel y cyfryw, wedi'i ddatganoli. Mae wedi'i gadw o dan Ddeddf Cymru 2017.

Mewn gwirionedd, mae hyn yn camarwain y sefyllfa wir. Mae nifer o swyddogaethau cyfiawnder a barnwrol sydd wedi'u rhannu ar hyn o bryd rhwng y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Cabinet. Ni ddylid ymdrin â chyfiawnder yn y dull hynod hen ffasiwn hwn, a dylai ddod yn gyfrifoldeb gweinidogol unigol llawn.

Mewn Senedd fach megis Cynulliad Cenedlaethol Cymru, mae temtasiwn i ddweud y gallai'r Cwnsler Cyffredinol wneud hyn. Byddai hyn yn bosibl, ond mae'n debyg nad yw'n ddymunol. Yn gyntaf, byddai angen diwygiad i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n atal y Cwnsler Cyffredinol rhag cymryd cyfrifoldebau gweinidogol. Yn ogystal, mae'n atyniadol cadw rôl Swyddog y Gyfraith ar wahân i swyddogaethau gweinidogol. Dylai swyddogaethau barnwrol sy'n ymwneud â thribiwnlysoedd, penodiadau ac yn y blaen gael eu tynnu'n llwyr oddi wrth Lywodraeth Cymru a'u gosod gyda'r Cwnsler Cyffredinol. Mae swyddogaethau cyfiawnder yn debygol o gynyddu ac mae hyn yn ychwanegu pwysau at y cynnig hwn.

**Ariannu Swyddogaethau Cyfiawnder**

Yn bennaf, y Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am y costau gweithredol a gweinyddol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â hyfforddiant. Os ydym wir am gael y cyfrifoldebau hyn ac yn credu eu bod yn angenrheidiol, mae angen i ni gymryd cyfrifoldeb drostynt ac mae hynny'n cynnwys y gost ariannol.

Ar hyn o bryd, mae'n anffodus ei bod yn annhebygol iawn y byddai Llywodraeth y DU neu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cytuno i drosglwyddo arian o ganlyniad i hynny.

**Y Proffesiwn Cyfreithiol yng Nghymru**

Mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd y proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru i enw da Cymru fel sector gwasanaethau cyfreithiol ac ariannol modern, sy'n ymwybodol iawn o dechnoleg. Mae datblygiadau technoleg a deallusrwydd artiffisial yn trawsnewid y byd. Mae angen i'r proffesiwn cyfreithiol

yng Nghymru groesawu hyn, nid ar ei ben ei hun ond fel rhan o rwydwaith byd-eang. Mae hyn yn effeithio ar fynediad at faterion cyfiawnder, yn ogystal â bod yn hanfodol i ddyfodol economaidd Cymru mewn byd ar ôl Brexit.

Yn gywir

**Mick Antoniw AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**